**Cyngor Cymuned Y Bontnewydd**
**COFNODION CYFARFOD MISOL MEDI 2020**
3 Medi 2020 7.00- cyfarfod o bell drwy gyfrwng fideo

**PRESENNOL:**

**Cynghorwyr:** Gruff Williams, Erddyn Davies, Dafydd Iwan, Math Williams, Wynn Roberts, Mirain Llwyd Owen, Huw Orwig

**Cadeirio:** Geraint Strello

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

## 1. YMDDIHEURIADAU

Emyr Williams, Peter Garlick

## 2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

## 3. CADARNHAU COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion 2 Gorffennaf 2020

Cynnig: Mirain Llwyd Owen

Eilio: Gruff Williams

## 4. MATERION SEFYDLOG

### 4.1 Adroddiad gan y Cynghorydd Peter Garlick

Doedd y Cynghorydd Peter Garlick ddim yn bresennol, ond fe ddanfonodd adroddiad ysgrifenedig ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod.

ARAFFU /TAWELU TRAFFIG LLANFAGLAN
Wedi bod mewn cysylltiad gyda Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd) a Dylan Wyn Jones, Swyddog Prosiectau Cyngor Gwynedd), Gyda'r firws corona mae’r

cynllun hwn wedi arafu.  Fodd bynnag, bydd llythyrau/holiadur yn cael eu dosbarthu yn fuan i drigolion lleol yn gofyn am eu barn.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gweld cynnwys y llythyr/holiadur ymlaen llaw, a sicrhau fod yr opsiynau posibl wedi eu hegluro yn glir i'r trigolion lleol.

FFORDD WLEDIG RHWNG RHOS BACH A FFORDD PEN Y BRYN
Yn dilyn cwblhau y ffordd yma  mae amryw o gwynion wedi eu gwneud am oryrru, ac mae'r Cynghorydd Peter Garlick mewn cysylltiad gyda adran priffyrdd Cyngor Gwynedd er mwyn cael cynllun arafu traffig cyn i Gyngor Gwynedd fabwysiadu y ffordd yn dilyn cwblhau y ffordd osgoi.

Ategodd y Cynghorydd Dafydd Iwan fod goryrru ar ffordd Rhos Bach, yn dilyn adeiladu'r bont newydd ar gyfer y ffordd osgoi, wedi cynyddu tueddiant pobl i oryrru yno.  Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn am ystyriaeth gael ei roi i arafu traffig yma.

FFORDD OSGOI BONTNEWYDD
Yn dilyn trafodaeth gyda chwmni Jones Bros, mae gwaith ar y prosiect rhaglen ychydig bach ar ei hôl hi o ran adeiladu rhai o'r strwythurau, yn benodol mewn rhannau o'r cynllun y tu allan i Fontnewydd.   Search hynny, ar y cyfan maent o flaen eu hamserlen i gwblhau oddeutu haf 2022

DATBLYGIAD NEWYDD CAE CAPEL, Y BONTNEWYDD
Bydd y tai cyntaf wedi eu gorffen oddeutu mis Mawrth 2021 ac maent yn edrych ar ddarfod y datblygiad oddeutu mis Gorffennaf 2021. Mae'r ffordd newydd drwy'r safle wedi ei gorffen, felly mae nwyddau yn cyrraedd drwy'r mynediad newydd ar y ffordd isaf ,sydd yn lleihau'r problemau fu gyferbyn â stad Erw Deg

TORRI GLASWELLT YN Y PENTREF
Mae'r glaswellt yn cael ei dorri gan wirfoddolwyr a hefyd yn rhannol gael ei ariannu gan y Cynghorydd Peter Garlick ei hun.  Barn y Cynghorydd Peter Garlick yw bod angen torri glaswellt yng nghae chwarae Llwyn Beuno yn amlach nag sydd yn cael ei wneud gan Gyngor Gwynedd.  Felly mae'r Cynghorydd Peter Garlick yn ariannu toriadau amlach ei hun.

Mae Cyngor Gwynedd yn nodi gwariant o £566 y flwyddyn yng nghaeau chwarae Bontnewydd ar gyfer torri gwair, ond ni chredir fod toriadau gwair wedi cael eu gwneud ers rhai blynyddoedd.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn am eglurhad am y gost o £566 a faint o doriadau gwair oedd yn cael eu gwneud bob blwyddyn.

GWELLIANNAU I'R A487 TRWY BENTREF BONTNEWYDD YN DILYN ISRADDIO'R FFORDD YN DILYN CWBLHAU'R FFORDD OSGOI

Mae'r Cynghorydd Peter Garlick mewn cysylltiad gyda swyddogion Asiantaeth Priffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru er mwyn trafod uwchraddio'r ffordd uchod cyn iddi gael ei throsglwyddo i Gyngor Gwynedd yn dilyn agor y ffordd osgoi,

Mae yna gynllun i ail-wynebu o'r gylchfan ger mynediad Glan Beuno hyd at yr arwydd terfyn cyflymder 30 m.y.a. yr ochr uchaf i fynediad Age Cymru.  Cyngor Gwynedd fydd yn ariannu hyn.

LLANFAGLAN

Cafwyd cais gan drigolion Llanfaglan bod angen bocsys blodau ym mharc y plwyf, Llanfaglan. Bu'r Cynghorydd Peter Garlick yno yn glanhau a chwynnu a phlannu blodau a Colin Tate yn adeiladu a sefydlu'r bocsys.  Search hynny, mae angen chwynnu'r bocsus a chadw trefn yno, oherwydd dydy hyn ddim wedi bod yn digwydd yn rheolaidd.

LLAIN MEDDYGON, RHOS BACH

Derbyniwyd cwynion am adeilad amaethyddol sydd wrthi'n cael ei adeiladu a phryder yn benodol am ddraenio dŵr.  Bu'r Cynghorydd Peter Garlick mewn cysylltiad ag adran cynllunio Cyngor Gwynedd ac maent yn cysylltu gyda'r adrannau priodol.

SWYDDOG  LOLIPOP AR Y PRIFF FFORDD YN Y BONTNEWYDD

Mae'r swyddog lolipop wedi ymddeol yn ddiweddar o'r swydd uchod, ac mae Cyngor Gwynedd wedi dweud na fydd y swydd yn bodoli rhagor.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn i'r swydd barhau tan o leiaf i'r ffordd osgoi agor

CAE CHWARAE LLWYN BEUNO

Derbyniwyd cwynion gan drigolion gyferbyn â'r cae chwarae bod peli yn mynd drosodd i'w gerddi, er does dim chwarae pêl i fod yno gan fod cae chwarae pêl droed ar gael yng Nghae Stanley.  Bwriad Cyngor Gwynedd osod arwydd dim chwarae pêl yno.

DOSBARTHU BWYD I'R HENOED A'R BREGUS OHERWYDD COVID 19

Sefydlodd y Cynghorydd Peter Garlick wasanaeth dosbarthu bwyd i'r henoed a bregus ym Montnewydd, Rhos Bach a Llanfaglan, gyda rhoddion gan y cyhoedd a

busnesau lleol. Parhaodd y gwasanaeth yma am oddeutu 5 mis, ond mae’r gwasanaeth bellach wedi gorffen.

Gyda’r gaeaf yn dod bydd mwy o angen am y gwasanaeth yma, ac felly dylid ystyried ei ail-ddechrau.

## 4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd

Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Math Williams.

**Gwaith cynnal a chadw a mân welliannau ym misoedd Gorffennaf ac Awst**

Mae toiledau'r genod wedi blocio a bron gorlifo unwaith eto, a hyn am y drydedd waith ers adnewyddu'r toiledau. Disgwylir anfoneb am oddeutu £360 i'w glanhau ac archwilio gyda chamera. Y camera wedi dangos bod dau o doiledau'r genod wedi eu cysylltu i'r un draen, mwy na thebyg gyda phiben flexi sydd â phlyg neu uniad rhy siarp ynddi; ac mae papur yn casglu yno. Nid camddefnydd sydd wrth wraidd y broblem ym marn dynion GEWS ond diffyg yn y modd mae pibau'r toiledau wedi eu cysylltu: a bydd rhaid cael plymar i newid cynllun y cyswllt. Yn y cyfamser rhaid cau un toiled i osgoi gorlif arall; ac efallai bydd rhaid cau dau o'r tri.

Mae'r Cylch Meithrin yn trefnu a thalu am osod dwy sinc i'w plant gael golchi eu dwylo (un tu allan ac un yn y dosbarth Meithrin); a hefyd am beiriant golchi llestri a chysylltiad iddo yn y gegin (i olchi teganau plant y Cylch). Rydym wedi trefnu y byddant hefyd yn gosod pibau ar gyfer sinc golchi dwylo yn y gegin tra'u bod yn addasu pibau ar gyfer y peiriant llestri; a Phwyllgor y Ganolfan fydd yn talu am y sinc hon.

**Gwaith ar y gweill**

Golau tu allan wrth y cyntedd bach - aros hyd y bydd digon o arian o incwm llogi.

Drws mynediad (coch) i'r cyntedd bach - mae ffrâm y drws yn rhydd yn y wal ar ochr y colfachau - aros hyd y bydd digon o arian o incwm llogi.

Gosod croen plastic ar y bargoed (barge a fascia) a gwterydd newydd - aros i'r contractiwr.

.

## 5. MATERION YN CODI O’R COFNODION

## 5.1 Camfa Tan Graig, Llanfaglan

Er gwaethaf cysylltu'n aml efo adran llwybrau Cyngor Gwynedd, dydy'r gwaith o drwsio'r gamfa ddim wedi cael ei wneud. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd

## 5.2 Rhodd Tarian Cymru

Cytunwyd yng nghyfarfod Gorffennaf I roi rhodd o £500 i Darian Cymru er mwyn cynhyrchu a chyflenwi offer PPE. Mae'r ymgyrch bellach wedi dod i ben oherwydd cafwyd digon o offer PPE, ac nid ydynt yn derbyn rhoddion ariannol bellach.

## 6. MATERION ARIANNOL

### 6.1 Cyflog a Chostau Clerc Gorffennaf 2020

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis
**TWE** £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros** £279.00 y mis

**Cyfanswm Net** £232.20 y mis

### 6.2 Cyflog a Chostau Clerc Awst 2020

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis
**TWE** £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros** £279.00 y mis

**Cyfanswm Net** £232.20 y mis

### 6.3 Adnewyddu Polisi Yswiriant

Cytunwyd I adnewyddu polisi yswiriant Zurich am gyfnod o 5 mlynedd gan fod hyn yn rhatach. Yn ogystal, mae'r polisi gan Zurich yn rhatach na'r hyn a

dalwyd yn 2015, ar ddechrau'r cyfnod 5 blynedd blaenorol.  Y gost yw £1283.48 y flwyddyn.

Cynnig:Erddyn Davies

Eilio:  Dafydd Iwan

**6.4** Derbyn ail daliad praesept 2020/21, 28 Awst 2020, £9,250.00

**6.5** Monitro'r gyllideb, cysoniad banc, balns yn y banc 28 Awst 2020 £37,506.28

## 7. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Cais Cynllunio C20/0190/19/AC, Gwiath Brics Seiont, Ffordd Felin Seiont, Caernarfon, LL55 2YL

Cais i amrywio amod 3 ar ganiatad cynllunio C17/0011/19/MW.

Dim gwrthwynebiad

## 8. GOHEBIAETH

Dim

## 9. MATERION ERAILL

### 9.1 Cyfethol Aelod

Mae'r Cynghorydd Gwyneth Thomas wedi penderfynu ymddiswyddo o'r Cyngor Cymuned.  Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu ati i ddiolch am ei gwaith fel aelod o'r Cyngor Cymuned am nifer o flynyddoedd.

Y broses i lenwi'r sedd wag fydd rhoi gwybod i Gyngor Gwynedd fydd yn llunio rhybudd yn rhoi hawl i drigolion lleol ofyn am etholiad os ydynt eisiau, ac os nad oes cais am etholiad, yna gellir hysbysebu'r sedd wag ac yna cyfethol.

### 9.2 Dyddiad Cyfarfod Blynyddol

Mae'n rhaid cynnal cyfarfod blynyddol cyn 31 Rhagfyr 2020. Cytunwyd i gynnal y cyfarfod blynyddol yr un pryd â chyfarfod arferol mis Tachwed 2020.

**9.3 Ymddygiad Anghymdeithasol Cae Stanley**

Mae plant a phobl ifanc, (a'r rhain ddim o anghenraid yn bobl leol), wedi bod yn ymgynnull am oriau maith bob dydd yng Nghae Stanley dros gyfnod yr haf.

Mae sbwriel a photeli wedi torri wedi cael eu gadael yno. Cysylltwyd â'r Heddlu sydd wedi bod yn cynnal patrolau, ac mae'r sefyllfa wedi gwella rhywfaint. Fodd bynnag gofynnir i'r Heddlu barhau i gynnal patrolau er mwyn cadw'r sefyllfa dan reolaeth.

Mae'r Clwb Pêl-droed bellach wedi rhoi gatiau ar draws y dugout a'r lloches fws, a gobeithir y bydd hynny yn gwella pethau.

Mae'r les rhwng y Cyngor Cymuned a Chlwb Pêl-droed Bontnewydd wedi dod i ben – ond yn parhau ar yr un telerau os na chytunir yn wahanol.

Cytunwyd i wahodd Cadeirydd newydd Clwb Pêl-droed Bontnewydd, Chris Garlick i gyfarfod mis Hydref er mwyn trafod telerau a dyfodol y les.

**9.4 Ffordd Osgoi Bontnewydd**

Yn ystod cyfnodau o law trwm mae dŵr budr wedi bod yn llifo o'r ffordd osgoi ar hyd y ffordd rhwng Bontnewydd a Llanfaglan.

Gofynnwyd i’r Clerc ysgrifennu at Jones Bros contractwyr y ffordd osgoi er mwyn gweld pryd fydd y lagwnau fydd yn dal dŵr o’r ffordd osgoi yn weithredol.

## 9.5 Cefnogi Cynnig Cyngor Cymuned Llanllyfni – Ymwelwyr â’r Wyddfa

Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi cynnig Cyngor Cymuned Llanllyfni i alw am gyfarfod efo Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd er mwyn trafod codi tâl ar ymwelwyr i’r Wyddfa.

## 9.6 Cynllun Lleoedd Lleol ar Gyfer Natur

Mae Cynllun Lleoedd ar Gyfer Natur yn cynnig grantiau i rai sydd efo diddordeb i gynnal prosiectau bychan lleol fydd yn gwella’r amgylchedd.

## 9.7 Gwasanaeth Torri Gwair Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Cymuned Llandwrog wedi ysgrifennu at gynghorau cymuned cyfagos er mwyn gweld a fyddai ganddynt ddiddordeb i gydweithio ar dorri gwair yn hytrach na chael Cyngor Gwynedd yn gwneud y gwaith.

Cytunwyd i drafod y mater yma ymhellach yng nghyfarfod Hydref.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 1 Hydref 2020 am 7 yr hwyr drwy gyfrwng cyswllt fideo.**